Brendan Sant *c.*489–578

(Brendan y Llywiwr) Sant Gwyddelig

Ganed Brendan yn Tralee, Swydd Kerry, oddeutu 489. Yn ystod ei ieuenctid cafodd addysg wrth draed Enda Sant ac Esgob Erc.

Dangosodd gryn addewid yn gynnar ac fe'i penodwyd yn Abad Llancarfan yng Nghymru. Yn ddiweddarach aeth i Lydaw lle y bu'n athro yn Sant Malo. Credir mai ef a sefydlodd Gadeirlan Ardfert yn Swydd Kerry.

Roedd Brendan yn deithiwr o fri. Mae rhai chwedlau o'r Alban yn honni ei fod wedi sefydlu cenhadaeth Gristnogol ar Ynysoedd yr Orkney ac iddo bregethu ar Ynysoedd Faroe.

Mae'r hanes enwocaf amdano yn gysylltiedig ag Abaty Clonfert, Swydd Galway. Yno siaradodd â mynach o'r enw Barrind a ddywedodd wrtho am Mernock, mynach arall oedd wedi teithio ymhell i'r gorllewin. Trwy ei waith ef roedd llawer wedi dod i gredu yn yr Arglwydd Iesu.

Pan glywodd hyn penderfynodd Brendan y byddai'n rhagori ar yr hyn a wnaeth Mernock. Adeiladodd long a dewisodd 14 o fynaich i gyd-deithio ag ef. Cychwynnodd o Fae Brandon tua'r gorllewin. Nid oes sicrwydd iddynt gyrraedd America ganrifoedd o flaen Columbus ond mae adroddiad am y fordaith yn sôn am fôr o wydr wedi ei rewi, ynysoedd folcanig a morfilod mawr yng nghefnfor yr Arctig.

Mae disgrifiad manwl o'r dulliau a ddefnyddiwyd i adeiladu ei long wedi goroesi. Er bod y disgrifiad o gyfnod diweddarach, adeiladodd Tim Severin gopi o'r llong ym 1976 a hwyliodd hi o orllewin Iwerddon trwy Ynysoedd yr Hebrides a'r Faroes, heibio Gwlad yr Iâ a'r Ynys Werdd (Greenland). O'r fan honno hwyliwyd dros Gulfor Davis i'r Tir Newydd (Newfoundland) a glanio ar 26 Mehefin 1978 gan brofi y gallai'r mynaich Gwyddelig fod wedi hwylio cyn belled ag America.

Bu Brendan farw yn 578 ac fe'i claddwyd yng Nghadeirlan Clonfert. Cynhelir Dydd Gŵyl Brendan ar 16 Mai.